CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
THE LEARNED SOCIETY OF WALES

# Cymdeithas Ddysgedig Cymru/ Cymru Ystwyth
# Rhwydwaith Ymchwil Dwyochrog Cymru-Iwerddon

**Yr Alwad yn Agor: 21 Awst 2023**

**Yr Alwad yn Cau: 30 Medi 4.00 pm**

**Uchafswm grant: £12,500**

**Cyflwyno ar-lein drwy: Ffurflen Gais – Cymru Ystwyth**

Mae'n bleser gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru, gyda chefnogaeth Cronfa Cymru Ystwyth Llywodraeth Cymru, ac mewn cydweithrediad ag Academi Frenhinol Iwerddon, gael gwahodd ceisiadau am Grant Rhwydwaith Dwyochrog Cymru-Iwerddon o dan y thema 'Diwylliant, Iaith a Threftadaeth'.

Uchelgais Grant Rhwydwaith Dwyochrog yw cryfhau cydweithredu a dysgu rhwng ymchwilwyr, academyddion ac ymarferwyr rhagorol yng Nghymru ac Iwerddon o fewn Fframwaith Cymru Ystwyth.

Yr uchafswm sydd ar gael ar gyfer grant unrhyw brosiect yw £12,500 fesul prosiect (GBP Sterling) am gyfnod o 3-4 mis. Bydd y cynllun yn ariannu un grant i sefydliad yng Nghymru ar gyfer 2023-24.

## AMCANION

Cryfhau cydweithredu, cyfnewid gwybodaeth a dysgu rhwng Cymru ac Iwerddon;

Cefnogi ymchwil gydweithredol a rhyngddisgyblaethol

Annog cychwyn partneriaethau newydd ac/neu ddatblygu partneriaethau presennol, gan arwain o bosib at gynigion arloesol yn y dyfodol a fydd yn dod â disgyblaethau a chenhedloedd ynghyd.

Cyfrannu at drafodaethau polisi yn Iwerddon a Chymru yn y maes thematig penodedig.

## THEMÂU

Mae'r Cynllun Peilot hwn yn gwahodd ceisiadau sy'n trafod thema eang "Diwylliant, Iaith a Threftadaeth', gyda ffocws neilltuol ar ieithoedd brodorol, lleiafrifol a llai eu defnydd, yn unol ag arweinyddiaeth Cymru yn y maes hwn o fewn y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig. Mae'r

thema hon hefyd yn cyd-fynd â thema Cymunedau a Diwylliant - thema â blaenoriaeth yn Fframwaith Môr Iwerydd Cymru Ystwyth, yn ogystal â Chyd-ddatganiad a Chyd-gynllun Gweithredu Cymru Iwerddon 2021.

# Cymhwysedd ymgeiswyr

## Yr Ymgeisydd Arweiniol

- Mae'r grant ar agor i ymchwilwyr academaidd sy'n gweithio mewn sefydliadau addysg uwch (SAU) neu sefydliadau ymchwil (SY) yng Nghymru.
- Ym mhob cais, rhaid i'r prif ymgeisydd fod yn academydd amser llawn neu ran-amser mewn disgyblaethau ym maes diwylliant, iaith a threftadaeth, sy'n ymwneud â gwaith ymchwil sy'n berthnasol i ieithoedd brodorol, lleiafrifol a llai eu defnydd. Rhaid iddynt fod yn aelod staff â deiliadaeth ac/neu gyflogaeth mewn SAU neu SY yng Nghymru.
- Rhaid i ymgeiswyr fod ar gontractau penagored, parhaus neu gyfnod penodol sy'n ymestyn y tu hwnt i ddyddiad y cyfnod a ragwelir ar gyfer y grant. Ni cheir defnyddio'r grant i ymestyn contract ymgeisydd.

## Y Cyd-Ymgeisydd

- Rhaid i gyd-ymgeisydd y prosiect fod yn ymchwilydd academaidd sy'n gweithio mewn sefydliadau addysg uwch (SAU) neu sefydliadau ymchwil (SY) yn Iwerddon (heb gynnwys Gogledd Iwerddon).
- Ym mhob cais, rhaid i'r prif ymgeisydd fod yn academydd amser llawn neu ran-amser mewn disgyblaethau ym maes diwylliant, iaith a threftadaeth, sy'n ymwneud â gwaith ymchwil sy'n berthnasol i ieithoedd brodorol, lleiafrifol a llai eu defnydd. Rhaid iddynt fod yn aelod o staff â deiliadaeth a/neu gyflogedig mewn SAU neu SY yn Iwerddon (heb gynnwys Gogledd Iwerddon).

## Meini Prawf Ychwanegol

- Gall fod gan y cais nifer o bartneriaid/cyd-ymchwilwyr ar draws y ddwy wlad os yw hynny'n briodol i'r prosiect.
- Gall tîm y prosiect hefyd gynnwys:
    - ymchwilwyr academaidd eraill o unrhyw ddisgyblaeth.
    - ymchwilwyr y tu hwnt i'r byd academaidd,
    - aelodau o'r cyhoedd neu grwpiau sy'n wynebu'r cyhoedd..

**Sylwch mai ond un Grant Rhwydwaith Ymchwil Dwyochrog Cymru-Iwerddon Cymru Ystwyth gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru y ceir ei ddal neu wneud cais amdano ar unrhyw bryd.**

# Cymhwysedd y prosiect:

Gall y prosiect adeiladu ar gydweithio rhyngwladol sy'n bodoli eisoes rhwng y ddwy wlad, neu ddangos cynlluniau ar gyfer datblygu rhwydweithiau cydweithredu newydd.

Rhagwelir y bydd pob prosiect yn arwain at ddatblygu rhwydwaith, neu amlinelliad o gysyniad ar gyfer cynnig prosiect grant yn y maes a archwilir er mwyn creu canlyniadau gweladwy a fydd o werth i'r gymuned academaidd a'r cyhoedd ar raddfa ehangach.

Er y bydd dyfarniadau ar agor i unigolion ym mhob cam o'u gyrfa ac i bob SAU yng Nghymru ac Iwerddon, anogwn geisiadau naill ai wedi'u harwain gan ymchwilwyr gyrfa gynnar[1] (YGGwyr) neu sy'n cynnwys YGGwyr fel cyfranogwyr **gweithredol** o fewn y prosiect a gynigir, a byddwn yn hyrwyddo'r cyfle drwy ein Rhwydwaith YGGwyr a Gyllidir gan CCAUC.

Nid yw'r grant yn gymwys ar gyfer gweithgareddau a fyddai wedi cael eu cynnal beth bynnag (er enghraifft, yn gysylltiedig â chynhadledd a drefnwyd eisoes).

**Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn cyllid ar gyfer gweithgareddau a gynhelir rhwng 1 Tachwedd 2023 a 27 Mawrth 2024 ar gyfer prosiectau y rhagwelir y byddant yn para 3-4 mis. Ni roddir unrhyw estyniadau y tu hwnt i 27 Mawrth 2024.**

# ASESU

Asesir cynigion gan banel a benodir gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru, a fydd yn cynnwys cynrychiolydd o'r Academi Frenhinol Iwerddon, a fydd yn dod i gonsensws er mwyn penderfynu pa gynigion sy'n llwyddiannus. Efallai y gofynnir i ymgeiswyr am ragor o wybodaeth cyn cadarnhau bod grant yn llwyddiannus

## Beth rydym yn chwilio amdano

Dyma brif egwyddorion y cynllun cyllido:

- ymchwil gydweithredol a rhyngddisgyblaethol
- gweithio gyda phartneriaid allanol i gydgynhyrchu canlyniadau ymchwil a chyfnewid gwybodaeth
- sicrhau bod egwyddorion ac arferion gorau gwaith rhyngddisgyblaethol yn cael eu mabwysiadu o'r cychwyn cyntaf, gan alluogi datblygiad partneriaethau gwirioneddol gydweithredol a fydd yn cynnig atebion i heriau cymhleth
- meithrin partneriaeth ar draws cymunedau o ymchwilwyr er mwyn paratoi i gystadlu am gyfleoedd am gyllid yn y dyfodol

[1] I ddibenion y grant hwn, diffinnir Ymchwilydd Gyrfa Gynnar fel deilydd PhD neu gymhwyster cyfwerth nad yw eto'n gwbl annibynnol

Asesir ceisiadau gan gyfeirio at y canlynol:

- cadw at amcanion yr alwad;
- a yw'r cais am gyllid o fewn y trothwy ac yn gyfiawn o ran cyflawniad y prosiect; yr ymgeisydd, y cyd-ymgeisydd a'r rhwydwaith a gynigir;
- cynllun prosiect, allbynnau ac effaith;
- ystyried a chyfrannu at saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Amrywiaeth, Tegwch a Chynhwysiant (ATCh)**

- Yn ogystal â'r prif ofynion cyfreithiol, dylai ymgeiswyr ystyried sut y byddant yn mynd i'r afael ag anghenion penodol yn gysylltiedig ag ATCh o'r cychwyn cyntaf, yn unol ag ymrwymiad y Gymdeithas o ATCh.

# Manylion Cyllid

Gallwch wneud cais am hyd at £12,500 i gefnogi eich prosiect.

Gall cynigion gynnwys costau uniongyrchol y gellir eu cyfiawnhau'n llawn wrth gyflawni'r prosiect.

- Gall hyn gynnwys, er enghraifft:

    - **Amser ymchwil:** costau cyflog priodol a chydnabyddedig ar gyfradd ddyddiol neu fesul awr, heb gynnwys argostau.

    - **Cymorth gweinyddol:** yn ddyddiol neu fesul awr, ar gostau cyflog priodol a chydnabyddedig ar gyfradd fesul awr, heb gynnwys argostau.

    - **Nwyddau traul ymchwil:** mae enghreifftiau'n cynnwys trwyddedau ar gyfer deunydd archifol neu ar gyfer meddalwedd sydd ei angen er mwyn cyflawni gwaith ymchwil; pamffledi argraffedig ar gyfer digwyddiadau rhannu ymchwil; te, coffi, cinio ar gyfer cyfarfodydd ac ati.; costau postio, offer ysgrifennu a llungopïo.

    - Ffioedd llyfrgell, caniatâd darlunio, ffioedd hawlfraint, gwasanaethau ffotograffig.

    - Cymorth gyda chostau cyhoeddi (ar ffurf gwarant yn erbyn colled neu ar gyfer deunydd darluniol).

    - Gwasanaethau cyfieithu a thrawsgrifio cyfweliadau.

- **Teithio sy'n gysylltiedig ag ymchwil:** treuliau rhesymol, gan ddefnyddio tocynnau dosbarth safonol (heb gynnwys teithiau dosbarth cyntaf a busnes), llety, cynhaliaeth, fisa.

- Costau sy’n gysylltiedig â rhannu canlyniadau sy'n deillio o'r prosiect - drwy gyhoeddi neu gyflwyno mewn cynadleddau arbenigol. Bydd costau rhannu canlyniadau fel arfer i gyfrif am uchafswm o 10% o'r gyllideb a geisir. Ariennir yr alwad hon y tu hwnt i reolau costio economaidd llawn.

Gall sefydliad y sawl y dyfernir y grant iddo a'r sefydliadau partner ychwanegu at y grant.

**Costau heb eu cynnwys**

- Rhaid i'r gyllideb a'r costau fod yn seiliedig ar amcangyfrifon dilys.
- **Ni ddarperir cyllid ar gyfer:** Argostau cyflog, hynny yw, Yswiriant Iechyd/Gwladol, cyfraniadau Pensiwn
- Costau offer, a chostau'n gysylltiedig ag offer.
- Costau digwyddiad, hynny yw, y gost o gynnal y digwyddiad; mae costau presenoldeb mewn digwyddiadau yn gymwys.

**Darparu'r grantiau**

Bydd y broses o ddarparu’r grantiau hyn fel a ganlyn:

- Codir archeb brynu, a rhennir rhif yr archeb brynu.
- Telir y grant drwy anfoneb ar ffurf ôl-daliad (ac mae'n rhaid i'r anfoneb gynnwys rhif yr archeb brynu, cyfeiriad y safle, cyfeiriad Cymdeithas Ddysgedig Cymru a rhif anfoneb unigryw) ar ôl derbyn yr adroddiad terfynol (gweler Adrodd isod).
- Mae'n rhaid i bob newid sylweddol i'r gyllideb wreiddiol gael ei chymeradwyo gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru.
- Drwy lofnodi'r ffurflen gais a derbyn y llythyr cynnig grant, mae'r sefydliad cynnal a'r ymgeisydd yn cytuno i ymrwymo i'r canllawiau a'r telerau ac amodau ar ôl i'r Sefydliad cynnal dderbyn y dyfarniad. Bydd gan y cyllidwyr hawl i orfodi'r telerau a'r amodau hyn

# ADRODD

Mae'n ofynnol i'r rhai y dyfernir grant iddynt gyflwyno adroddiad terfynol erbyn 30 Ebrill 2024, drwy ddefnyddio'r amserlen a ddarperir gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru.

Dylai’r adroddiad:

- Amlinellu'r cynnydd mewn perthynas â'r rhaglen ymchwil a'r allbynnau a nodwyd yn y cais gwreiddiol;
- Nodi prif amcanion ymchwil y Grant a chyflawniad yn eu herbyn;

- Darparu rhestr o'r holl allbwn, ee, y cyhoeddiadau a gynhyrchwyd (neu sydd ar y gweill), cyflwyniadau i gynadleddau, prosiectau cydweithredol, digwyddiadau ac ati;
- Cynnwys crynodeb gweithredol nad yw'n gyfrinachol a fydd yn cael ei gyfieithu i Saesneg.
- Darparu fideo 3-5 munud yn rhoi crynodeb hygyrch o'r prosiect
- Cynnwys datganiad ariannol a derbynebau ar gyfer yr **holl gostau a ysgwyddwyd** gan gynnwys taflenni amser i nodi amser y staff.

Efallai y bydd disgwyl i ymgeiswyr llwyddiannus hefyd gymryd rhan yn llawn mewn uwchgynhadledd diwedd prosiect i arddangos eu gwaith mewn fforwm rhyngwladol, a allai gael ei gynnal ar-lein a hefyd wyneb yn wyneb. Bydd unrhyw allbwn ychwanegol wedi'i deilwra i gyd-fynd â natur y rhwydwaith, ee cofnodion o arddangosfeydd, digwyddiadau, rhwydweithiau newydd a gafodd eu creu.

### Effaith

Bydd gofyn hefyd i ymgeiswyr ddangos effaith y grant rhwydwaith, o ran:

- Gweithgareddau dwyochrog ac o fewn y wlad sydd wedi cael eu cynnal o ganlyniad i'r cyllid, na fyddent wedi cael eu cynnal fel arall;
- Manteision y rhwydweithiau yn y presennol a'r dyfodol i bartneriaid y prosiect, gan gynnwys cwmpasu am grantiau newydd (ee, Horizon Europe, cyllid cynghorau ymchwil UKRI);
- Manteision y rhwydweithiau yn y presennol a'r dyfodol i bawb sy'n cymryd rhan, gan gynnwys cyfranogwyr o du'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth (lle bo'n berthnasol) ac yn enwedig y rhai nad fyddent o reidrwydd wedi cael y cyfle i gymryd rhan mewn prosiect o'r math hwn fel arfer.

## Sut i ymgeisio

Rhaid cyflwyno cynigion drwy'r ffurflen hon **erbyn 30 Medi 2023 am 4.00 pm**, ynghyd â Datganiad o Gefnogaeth i Arweinydd y Prosiect a Datganiad o Gytundeb gan y Cyd-Ymgeisydd fel y disgrifir isod..

### Dogfennau Ategol

Rhaid cyflwyno Datganiad o Gefnogaeth y Sefydliad Tuag at Arweinydd y Prosiect a Datganiad o Gytundeb y Cyd-ymgeisydd drwy e-bost i: ResearcherDevelopment@lsw.wales.ac.uk erbyn y dyddiad cau, sef **30 Medi 2023 am 4.00 pm.**

Dylai'r Datganiad o Gefnogaeth y Sefydliad Tuag at Arweinydd y Prosiect amlinellu pam ei fod yn cefnogi'r cais, a dangos eu cefnogaeth i helpu i rannu a hyrwyddo allbynnau ac effeithiau allweddol. Mae'n rhaid enwi Arweinydd y Prosiect yn y llythyr hwn. Mae'n rhaid i'r

Rheolwr Llinell, y Swyddog Ymchwil neu awdurdod arall priodol o fewn y sefydliad lofnodi'r datganiad.

Dylai llythyr y Cyd-ymgeisydd amlinellu ei fod yn cydsynio i gael ei gynnwys yn y cais, ac os dyfernir Grant a'i dderbyn gan yr ymgeisydd arweiniol, y bydd yn cytuno i ymrwymo i'r Telerau ac Amodau. Rhaid cynnwys enw'r Arweinydd Prosiect Cymreig yn y llythyr hwn. Dylai hefyd gael ei lofnodi a chynnwys cadarnhad bod yr ymgeisydd wedi'i wahodd i'w sefydliad ar gyfer y prosiect hwn.

### Dyddiadau Allweddol:

**Galwad yn Agor**: 21 Awst 2023

**Galwad yn cau:** 30 Medi 2023, 4.00 pm

**Adolygu a phaneli:** 1-15 Hydref 2023

**Canlyniad y gwaith dethol:** erbyn 31 Hydref 2023

**Dyddiadau dechrau ar gyfer prosiectau:** 1 Tachwedd - 31 Rhagfyr 2023

**Dyddiad gorffen y prosiect**: 31 Mawrth 2024

**Adroddiad terfynol i'w gyflwyno:** 30 Ebrill 2024

## Gwybodaeth bellach

Cysylltwch â'n Tîm Datblygu Ymchwilwyr (ResearcherDevelopment@lsw.wales.ac.uk) os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch.

## Diogelu data

Bydd Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn defnyddio'r wybodaeth rydych yn ei darparu at ddibenion prosesu'ch cais, gan wneud unrhyw wobrau, monitro ac adolygu unrhyw grantiau. Mae'n bosibl y byddwn yn rhannu gwybodaeth agregau dienw â Chronfa Cymru Ystwyth Llywodraeth Cymru. Mae Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data'r DU 2021 (GDPR y Deyrnas Gyfunol). Rydym yn prosesu ac yn trin gwybodaeth bersonol yn ôl y rheoliadau hyn. Dim ond er mwyn prosesu eich cais y bydd yr wybodaeth bersonol y byddwch yn ei darparu ar y ffurflen hon yn cael ei defnyddio. Bydd yr wybodaeth yn cael ei gweld gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru a'r rhai sy'n rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Ni fydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio/ei rhannu y tu hwnt i'r partneriaid a restrir uchod at unrhyw ddiben arall heb eich caniatâd penodol.